

# Nodi Llwybrau Menywod at Droseddu a'r Cyfleoedd Atal ac Ymyrraeth Gynnar Sylfaenol i Fenywod Mewn Perygl o Droseddu yng Nghymru

Emma Sheeran

## Nodau'r Astudiaeth

1. Nodi a deall y ffactorau risg allweddol ar gyfer ymddygiad troseddol ymhlith menywod
2. Nodi ac archwilio'r cyfleoedd posibl ar gyfer ymyrraeth gynnar ac atal sylfaenol ar gyfer troseddu
3. Deall y gwahanol bwyntiau cyffwrdd y mae menywod yng Nghymru yn eu gwneud gyda gwasanaethau cyn cysylltu â'r CJS

## Dulliau

### Cam Un: Adolygiad o Lenyddiaeth

Cam Un: chwiliadau i nodi themâu allweddol "Female offending", "offending", "women", "criminal justice" "pathways", "background"

Cam Dau: chwiliadau i ategu llenyddiaeth ym mhob thema allweddol "Female offending", "offending", "women", "criminal justice" "pathways", "background", "poverty", "ACEs", "domestic abuse", "brain injury", "mental illness", "learning disability", "neurodiversity", "ADHD", "autism", "race and ethnicity", "Gypsy, Romany and Traveller"

### Cam Dau: Astudiaethau Achos

Ymgwymerwyd ag astudiaethau achos o fenywod sydd wedi troseddu yng Nghymru i archwilio llwybrau at droseddu. Cafodd yr astudiaethau achos hyn eu cymharu â thystiolaeth i archwilio sut mae'r sylfaen dystiolaeth ryngwladol yn gymwys i fenywod yng Nghymru.

## Canfyddiadau: Adolygiad Llenyddiaeth Un

Mae ffactorau sy'n dylanwadu ar risg menywod yn dod i gysylltiad â'r System Cyfiawnder Troseddol yn eistedd o fewn y themâu canlynol. Canfuwyd fod y ffactorau hyn yn gorgyffwrdd ac yn rhyngweithio ar draws themâu:

- Tlodi
- Camdriniaeth ddomestig a thrais rhywiol
- Profiadau niweidiol yn ystod plentyndod.
- Salwch meddwl a defnydd sylweddau
- Anaf i'r ymennydd
- Niwroamrywiaeth
- Hil/ethnigrwydd

## Canfyddiadau: Adolygiad Llenyddiaeth Dau

Thema Ymyrryd	Argymhellion
Atal sylfaenol ar gyfer plant a menywod yn y System Cyfiawnder Troseddol	Lleihau effeithiau negyddol carcharu mamau a hyrwyddo ffactorau diogelu megis cyrhaeddiad addysgol a chynhwysiad cymdeithasol trwy gymorth arbenigol i deuluoedd menywod yn y System Cyfiawnder Troseddol
Gwasanaeth ac ymyriadau iechyd meddwl	Gwella mynediad at wasanaethau a thriniaethau iechyd meddwl, cymorth wedi'i leoli yn y gymuned ac wedi'i arwain gan gymheiriaid, a chymorth iechyd meddwl lefel is i leihau cynnydd at anghenion iechyd meddwl mwy cymhleth.
Cymorth anaf i'r ymennydd	Gwella mynediad at ymyriadau seicolegol, deddfu ar safon genedlaethol ar gyfer gwasanaethau cymorth adfer o anaf i'r ymennydd, a sicrhau bod cyfarpar sgrinio gwybodus am rywedd yn cael eu defnyddio i adnabod anghenion
Timau amlddisgyblaethol	Datblygu timau o arbenigwyr o amrediad o ddisgyblaethau sydd wedi'u lleoli mewn meddygfeydd teulu
Cymorth i unigolion niwroamrywiol	Gwella'r adnabod a'r cymorth a gynigir i fenywod niwroamrywiol gan ddefnyddio cyfarpar sgrinio sy'n wybodus am rywedd
Cymhwyster diwylliannol	Dylai gwasanaethau y mae menywod yn dod i gysylltiad â nhw hyfforddi'r holl staff i gael cymhwyster diwylliannol wrth ddarparu cymorth

## Canfyddiadau: Astudiaethau Achos

Dylanwadodd pedwar prif ffactor ar risg troseddu

Salwch meddwl	Defnydd sylweddau
Galar	Anaf i'r ymennydd

## Casgliadau

Cafodd sawl ffactor posibl sy'n dylanwadu ar risg menywod yn troseddu, yn ogystal â chyfleoedd ymyrraeth cynnar ac atal sylfaenol, eu hadnabod yng Nghymru.